

Rhif: WG28966



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth i ategu Deddf
yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ac
amrywiol ddogfennau canllaw arfer gorau

Dyddiad cyhoeddi: **Mawrth 2017**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL (h) Hawlfraint y Goron Digidol ISBN 978-1-4734-9109-0

Cynnwys

Cyflwyniad	3
C1. A ydych yn cytuno mai'r gyfradd llog y dylid ei chynnwys mewn rheoliadau yw Cyfradd Sylfaenol Banc Lloegr plws 2%?	6
C2. A ydych yn cytuno â'r cyfnod o amser a bennir ar gyfer hawlio digollediad sy'n gysylltiedig â hysbysiad stop dros dro?	7
C3. A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno proses symlach ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig ar gyfer gwaith annadleuol?	7
C4. A ydych yn cytuno y dylai fod angen datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ar gyfer pob cais am gydsyniad heneb gofrestredig (oni chytunir fel arall gyda Gweinidogion Cymru), cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth?	8
C5. A ydych yn cytuno y dylai datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ddisodli datganiadau dylunio a mynediad ar gyfer ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig?	10
C6. A ydych yn cytuno y dylai fod angen datganiad mynediad mewn unrhyw ddatganiad o'r effaith ar dreftadaeth pan fyddai'r gwaith arfaethedig yn newid y fynedfa i adeilad rhestredig neu fynedfa y tu mewn iddo?	11
C7. A ydych yn cytuno â'r cynnwys arfaethedig ar gyfer datganiad o'r effaith ar dreftadaeth?	12
C8. A yw'r canllawiau, <i>Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru</i> , yn cyfleu'n glir pryd, pam a sut y dylid defnyddio proses asesu'r effaith ar dreftadaeth ac yn rhoi cyngor defnyddiol ar sut i gyflwyno'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth?	13
C9. A fydd <i>Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru</i> yn darparu canllawiau defnyddiol i berchenogion adeiladau rhestredig a'u hasiantau?	15
C10. A fydd <i>Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd</i> yn effeithiol o ran helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddiogelu Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru?	17
C11. A fydd y canllawiau yn helpu i reoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru yn gyson, yn enwedig y rhai a leolir mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol?	18
C12. A fydd <i>Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru</i> yn annog awdurdodau cynllunio lleol i fabwysiadu ymagwedd gyson at	19

ardaloedd cadwraeth ledled Cymru?

- | | | |
|-------------|--|----|
| C13. | A yw'r egwyddorion cyffredinol a'r cyngor ar arfer da yn <i>Rheoli Rhestrau o Asedau o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru</i> yn rhoi digon o arweiniad er mwyn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i sefydlu a defnyddio rhestrau lleol? | 21 |
| C14. | A yw <i>Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru</i> yn esbonio'n ddigon da pam mae lleoliad yn bwysig a sut y dylid ei asesu? | 23 |
| C15. | A yw'r canllawiau yn esbonio'n ddigon da elfennau gweledol ac, yn arbennig, elfennau anweledol lleoliad? | 25 |
| C16. | A yw'r canllawiau yn esbonio sut i ystyried elfennau gweledol ac anweledol lleoliad yn ystod y broses asesu? | 26 |
| C17. | Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, a fydddech cystal â'u nodi yma. | 28 |
| | Rhestr o'r ymatebwyr (wedi'u trefnu yn ôl categori) | 31 |

Cyflwyniad

1. Pasiwyd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016, er mwyn gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy.¹ Bydd hefyd wrth wraidd pecyn integredig o is-ddeddfwriaeth, polisi a chyngor cynllunio newydd ac wedi'i ddiweddarau a chanllawiau arfer gorau ar amrywiaeth eang o bynciau Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r gwaith o reoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol yn ofalus yn unol ag athroniaeth ac arfer cadwraeth presennol.
2. Cynlluniwyd y gyfres gyfan hon o ddeddfwriaeth, polisi, cyngor a chanllawiau gan ystyried y saith nod a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.² Mae'r nodau llesiant hynny yn rhoi gweledigaeth a rennir o'r 'Gymru a garem' i gyrff cyhoeddus, y gallant weithio tuag ati.
3. Rhwng 11 Gorffennaf a 3 Hydref 2016, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar sawl cynnig ar gyfer is-ddeddfwriaeth i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a nifer o ddogfennau canllaw arfer gorau drafft. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cyfraniadau at yr ymgynghoriad hwnnw ac yn nodi ymatebion Llywodraeth Cymru.
4. Yn y canllawiau arfer gorau, ceir nifer o gyfeiriadau at bolisi a chyngor cynllunio newydd a ddatblygwyd i ategu Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Roedd y fersiwn ddrafft o bennod ddiwygiedig ar yr amgylchedd hanesyddol (pennod 6) ar gyfer *Polisi Cynllunio Cymru* yn destun ymgynghoriad a ddaeth i ben ar 12 Mehefin 2016. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad hwnnw bellach wedi'i gyhoeddi³ ac mae'r fersiwn derfynol o'r bennod wedi'i chyflwyno.⁴
5. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad sy'n destun yr adroddiad hwn, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru hefyd ar fersiwn ddrafft o *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, sef datganiad cyngor cynllunio newydd a fydd yn disodli cylchlythyrau'r Swyddfa Gymreig nad ydynt yn gyfredol mwyach.⁵ Ymatebodd nifer o unigolion a sefydliadau i'r ddau ymgynghoriad a chafwyd rhywfaint o groesgyfeirio yn yr atebion. Bydd adroddiad ar yr ymgynghoriad ar *Nodyn Cyngor Technegol 24* yn ymddangos maes o law.

Yr ymgynghoriad

6. Ceisiodd yr ymgynghoriad hwn farn ymatebwyr ar dri chynnig ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol o dan Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol Cymru (Cymru) 2016 er mwyn gwneud y canlynol:

¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents/enacted>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents>

³ <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/newidiadau-arfaethedig-i-bolisi-cynllunio-cymru-pennod-6-yr-amgylchedd-hanesyddol>

⁴ <http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>


⁵ <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/nodyn-cyngor-technegol-arfaethedig-24-yr-amgylchedd-hanesyddol>

- A. pennu'r gyfradd llog ar gyfer costau yr eir iddynt wrth wneud gwaith brys (cwestiwn 1);
 - B. sefydlu gweithdrefnau i hawlio iawndal sy'n gysylltiedig â hysbysiadau stop dros dro ar gyfer henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig (cwestiwn 2);
 - C. cyflwyno gweithdrefnau symlach sy'n ymwneud â chydsyniad heneb gofrestredig (cwestiwn 3).
7. Hefyd, ceisiodd sylwadau ar y canlynol:
- D. cynnig ar gyfer is-ddeddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol i ddatganiadau o'r effaith ar dreftadaeth gael eu cynnwys fel rhan o'r gweithdrefnau gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig, cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth a dogfen ganllaw ddrafft gysylltiedig: *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru* (cwestiynau 4-8);
 - E. canllawiau arfer gorau drafft: *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* (cwestiwn 9);
 - F. canllawiau arfer gorau drafft: *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru* (cwestiynau 10-11);
 - G. canllawiau arfer gorau drafft: *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru* (cwestiwn 12);
 - H. canllawiau arfer gorau drafft: *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru* (cwestiwn 13);
 - I. canllawiau arfer gorau drafft: *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* (cwestiynau 14-16);
 - J. unrhyw faterion cysylltiedig nas codwyd yn benodol yn y cwestiynau cynharach (cwestiwn 17).
8. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru sydd wedi'u neilltuo ar gyfer ymgynghoriadau, lle roedd y dogfennau canllaw drafft a ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael i'w lawrlwytho.
9. Hysbyswyd Aelodau'r Cynulliad y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei lansio mewn datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith ar 11 Gorffennaf 2016.
10. Defnyddiwyd amrywiaeth o gyfryngau i gyhoeddi'r ymgynghoriad. Cyfeiriwyd ato ar y tudalennau Diwylliant a Chwaraeon ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar wefan Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw). Darparwyd rhagor o wybodaeth ar dudalennau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ar wefan Cadw. Cafodd y bwriad i gyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, ynghyd â'r ymgynghoriad ar *Nodyn Cyngor Technegol 24*, sylw yn yr ail rifyn o e-fwletin Cadw, 'Newyddion Diweddaraf am yr Amgylchedd Hanesyddol', a ddosbarthwyd i fwy na 600 o randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd â diddordeb ar brynawn y

lansiad. Anfonwyd neges atgoffa drwy e-bost at y rhai a oedd wedi derbyn yr e-fwletin gwreiddiol dair wythnos cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben. At hynny, cysylltodd staff cyfathrebu Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid allweddol yn y sector er mwyn rhoi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad a defnyddiwyd sianeli cyfryngau cymdeithasol Cadw i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ac anfon negeseuon i atgoffa sefydliadau ac unigolion ei fod ar fin dod i ben.

Yr ymatebion

11. Ymatebodd 54 o sefydliadau ac unigolion i'r ymgynghoriad. Ceir rhestr lawn yn Atodiad 1, gyda manylion wedi'u hepgor lle mae ymatebydd wedi gofyn am gael aros yn ddienw.
12. Anfonwyd dros dri chwarter yr ymatebion (42) o gyfeiriadau yng Nghymru. Er i'r 12 ymateb sy'n weddill gael eu hanfon o'r tu allan i Gymru neu o gyfeiriadau nas datgelwyd, roedd bron pob un ohonynt yn adlewyrchu cyfranogiad clir yn y gwaith o reoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru a diddordeb uniongyrchol yng nghynigion yr ymgynghoriad.
13. Gofynnodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i ymatebwyr ddewis un o saith categori i ddisgrifio eu hunain. Dewisodd dau ymatebydd nifer o gategoriâu a dewiswyd yr un mwyaf addas at ddibenion yr ystadegau sy'n dilyn. Ni ddychwelodd 11 o ymatebwyr eraill daflen flaen y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ac, felly, ni wnaethant gategoreiddio eu hunain. Fodd bynnag, ar sail cynnwys yr ymatebion neu'r cysylltiadau sefydliadol datganedig bu'n bosibl nodi categorïau priodol. Mae Ffigur 1 yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl categori.



Ffigur 1. Ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl categori

14. Gan fod yr ymgynghoriad yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau, gwahoddwyd ymatebwyr i anwybyddu unrhyw gwestiynau nad oeddent o ddi-ddordeb iddynt neu nad oedd ganddynt brofiad ohonynt. O ganlyniad, roedd llawer o ymatebion gwag ar gyfer pob cwestiwn ac mae'r rhain wedi'u hepgor o'r ystadegau yn y dadansoddiad manwl o'r cwestiynau unigol sy'n dilyn.

A. Rheoliadau i bennu'r gyfradd llog ar gyfer costau yr eir iddynt wrth wneud gwaith brys

C1. A ydych yn cytuno mai'r gyfradd llog y dylid ei chynnwys mewn rheoliadau yw Cyfradd Sylfaenol Banc Lloegr a 2%?

Ydw	Nac ydw	Ydw ac Nac ydw	Sylw yn unig	Cyfanswm
22	5	0	0	27
81%	19%	0%	0%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

15. Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid y cynnig. Roedd dau o'r farn bod y gyfradd llog yn deg. Dywedodd corff proffesiynol fod y gyfradd yn 'gymesur' a nododd ei bod yn adlewyrchu'r un a gynigiwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU ar gyfer blaendaliadau iawndal prynu gorfodol a delir yn hwyr.
16. Roedd wyth awdurdod lleol o blaid y gyfradd arfaethedig, ond ychwanegodd un yr amod y dylai'r gyfradd gwmpasu cost benthyca. Nododd un arall y byddai'r cynnig yn sicrhau cysondeb ymhlith awdurdodau lleol sy'n defnyddio hysbysiadau gwaith brys yn rheolaidd, ond roedd yn amau a fyddai'n arwain at ddefnydd ehangach o hysbysiadau o'r fath.
17. Ymhlith y pum ymatebydd a roddodd ateb negyddol i'r cwestiwn, pwysleisiodd un awdurdod lleol a sefydliad cysylltiedig fod angen i'r gyfradd arfaethedig fod yn ddigon uchel i dalu costau llawn unrhyw fenthyciadau gan awdurdodau lleol. Gofynnodd y ddau a fyddai'r llog a godid yn adlog neu'n llog syml.
18. Roedd dau awdurdod lleol arall a sefydliad sy'n cynrychioli awdurdodau lleol o'r farn bod y gyfradd arfaethedig yn rhy isel. Gwnaethant ddadlau y dylid pennu'r gyfradd yn ddigon uchel i weithredu fel rhwystr, rhag ofn y byddai'n creu cymhelliant gwrthnysig. Fel arall, câi perchenogion nad oeddent wedi trefnu na gwneud gwaith brys eu hunain eu gwobrwyo â ffynhonnell benthyciadau rhad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

19. Dim ond fel dewis olaf y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio gwaith brys. Y nod yw sicrhau bod y gyfradd llog yn deg ond nad yw'n gosbol. Ystyriwyd defnyddio Cyfradd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ond mae dealltwriaeth y cyhoedd ohoni yn gyfyngedig a byddai angen i'r gyfradd amrywio yn dibynnu ar oes y benthyciad. Felly, ni fyddai'n sicrhau eglurder na thryloywder. Gan fod y

mwyafrif llethol o'r ymatebwyr o'i blaid, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu parhau â'r cynnig ar gyfer Cyfradd Sylfaenol Banc Lloegr a 2%.

B. Gweithdrefn i hawlio digollediad sy'n gysylltiedig â hysbysiadau stop dros dro ar gyfer adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig

C2. A ydych yn cytuno â'r cyfnod o amser pan fo'n rhaid hawlio digollediad sy'n gysylltiedig â hysbysiad stop dros dro?

Ydw	Nac ydw	Ydw ac Nac ydw	Sylw yn unig	Cyfanswm
25	2	0	0	27
93%	7%	0%	0%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

20. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr o blaid y cyfnod arfaethedig o chwe mis. Nododd sawl ymatebydd ei bod yn rhesymol ac yn gyson cysoni'r cyfnod â'r hyn a ganiateir ar gyfer hawliadau digolledu eraill o dan y ddeddfwriaeth bresennol.
21. Roedd dau sefydliad sy'n cynrychioli perchenogion yn gwrthwynebu'r terfyn amser arfaethedig. Roedd un yn derbyn bod terfyn amser yn ddymunol ond nododd, pan fo adeilad yn cael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol, y gallai hysbysiad atal dros dro gael effeithiau a fyddai'n ymestyn ymhell y tu hwnt i chwe mis. Roedd y ddau o blaid cyfnod o flwyddyn o leiaf, ond roedd un yn derbyn y byddai naw mis yn dal i fod yn welliant.

Ymateb Llywodraeth Cymru

22. Caiff iawndal ei dalu am unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei phriodoli/briodoli'n uniongyrchol i effaith hysbysiad stop dros dro; gall hyn gynnwys colledion tor-contract sy'n deillio o gamau a gymerwyd i gydymffurfio â hysbysiad. Gan ystyried yr holl ymatebion a dymunoldeb sicrhau cysondeb â gweithdrefnau digolledu eraill, bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r cyfnod arfaethedig o chwe mis ar gyfer hawliadau.

C. Symleiddio proses cydsyniad heneb gofrestrdig

C3. A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno proses symlach er mwyn gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestrdig ar gyfer gwaith annadleuol?

Ydw	Nac ydw	Ydw ac Nac ydw	Sylw yn unig	Cyfanswm
32	1	1	1	35
91%	3%	3%	3%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

23. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rheoliadau arfaethedig i gyflwyno proses symlach ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig ar gyfer gwaith annadleuol. Fe'i croesawyd gan lawer fel cam i symleiddio'r broses a lleihau biwrocratiaeth a chostau. Fodd bynnag, nododd sawl un fod angen diffiniad clir o 'waith annadleuol'. Gofynnodd sawl ymatebydd a fyddai'r broses symlach ar gyfer cydsyniad ar gael ar gyfer gwaith ailadroddus.
24. Rhoddodd un sefydliad archaeolegol ateb cadarnhaol ac ateb negyddol i'r cwestiwn. Roedd yn gresynu nad oedd newidiadau i gysyniadau dosbarth, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a seilwaith, wedi'u hystyried. Roedd hefyd yn pryderu y gallai'r weithdrefn symlach arwain, o bosibl, at achosion o gamddefnyddio a galwodd am i'r broses gael ei monitro'n ofalus er mwyn atal effeithiau negyddol cronol.
25. Roedd sefydliad archaeolegol arall yn anghytuno â'r weithdrefn arfaethedig am y gallai gyflwyno risgiau nas rhagwelwyd. O gofio arwyddocâd henebion cofrestredig, ystyrir y dylai unrhyw effaith bosibl fod yn destun proses ystyried a chymeradwyo ffurfiol. Mae cytundebau rheoli yn cynnig llwybr gwell.

Ymateb Llywodraeth Cymru

26. Mae Llywodraeth Cymru yn falch o weld bod y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr o blaid gweithdrefnau symlach ar gyfer cydsyniad heneb gofrestredig. Dim ond ar gyfer mân waith, a ddiffinnir mewn canllawiau i ymgeiswyr ac arolygwyr er mwyn sicrhau cysondeb, y caiff y system ei defnyddio. Caiff y defnydd a wneir o'r weithdrefn ei fonitro a'i adolygu er mwyn asesu pa mor effeithiol ydyw a nodi a dileu unrhyw botensial ar gyfer achosi niwed hirdymor i henebion.

D. Datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth a chanllawiau cysylltiedig

C4.	A ydych yn cytuno y dylai fod angen datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ar gyfer pob cais am gydsyniad heneb gofrestredig (oni chytunir fel arall gyda Gweinidogion Cymru), cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth?
------------	--

Ydw	Nac ydw	Ydw ac Nac ydw	Sylw yn unig	Cyfanswm
35	5	0	1	41
85%	12%	0%	3%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

27. Roedd mwyafrif clir o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cyflwyno gofyniad i gynnwys datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth mewn ceisiadau am gydsyniad asedau dynodedig. Yn gyffredinol, cytunwyd y dylai asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth fod yn gymesur ag arwyddocâd yr ased a maint a natur y

datblygiad. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod angen cychwyn proses asesu'r effaith ar dreftadaeth ar ddechrau unrhyw waith datblygu er mwyn sicrhau ei bod yn llywio'r broses o ystyried opsiynau a strategaethau lliniaru.

28. Fodd bynnag, amododd llawer o ymatebwyr eu cefnogaeth â sylwadau. Gofynnodd sawl ymgynghorai am eglurhad ynglŷn â phryd y byddai datganiad o'r effaith ar dreftadaeth yn orfodol a phryd y byddai'n arfer da yn unig. Awgrymodd sawl un y dylid ymestyn y gofyniad i gynnwys y canlynol:
 - ceisiadau am ganiatâd cynllunio;
 - unrhyw waith y mae angen cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer mewn ardaloedd cadwraeth;
 - datblygiadau sy'n effeithio ar Safleoedd Treftadaeth y Byd;
 - datblygiadau sy'n effeithio ar barciau a gerddi hanesyddol a'u lleoliadau;
 - unrhyw waith sy'n effeithio ar leoliad heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig.
29. Nododd rhai ymatebwyr y byddai proses asesu'r effaith ar dreftadaeth o fudd i awdurdodau cydsynio ac ymgeiswyr ac y gellid ei chymhwyso'n broffidiol at asedau hanesyddol nas dynodwyd. Fodd bynnag, roedd eraill o'r farn y dylid nodi'n glir nad oes angen datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth ar gyfer asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig. Nododd rhai ymgynghoreion ei bod yn bwysig sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir a'r cyngor a roddir yn gyson ym mhob un o'r dogfennau canllaw newydd.
30. Galwodd ymatebwyr sy'n cynrychioli buddiannau archaeolegol ac eglwysig am eglurhad ynglŷn â'r gydberthynas rhwng systemau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer nodi a gwerthuso arwyddocâd asedau hanesyddol a phroses asesu'r effaith ar dreftadaeth. Awgrymodd un ymatebydd y dylai fod yn ofynnol i Cadw ac awdurdodau lleol ddarparu dogfen friffio ar bob safle sy'n nodi ei arwyddocâd a materion eraill; byddai'r ddogfen hon yn debyg i'r un a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig.
31. Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r gofyniad arfaethedig i gynnwys datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth, roedd sawl un o'r farn y dylent fod yn arfer gorau yn hytrach na bod yn orfodol. Awgrymodd un ymatebydd y dylai awdurdodau cynllunio lleol gael rhywfaint o ddisgresiwn i anwybyddu'r gofyniad. Roedd rhai o'r farn y byddai'r gofyniad yn feichus, yn enwedig ar gyfer mân waith, ac y gallai ymyrryd â gwaith hanfodol sydd angen ei wneud, mewn rhai achosion, er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd. Nid oedd un ymatebydd yn argyhoeddedig y byddai datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth ar eu pen eu hunain yn darparu digon o wybodaeth i benderfynu ar geisiadau am gydsyniad mewn achosion cymhleth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

32. Gan ystyried yr ymateb cadarnhaol cryf i'r cynnig i gyflwyno datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen er mwyn eu cyflwyno i broses cydsyniad adeilad rhestredig. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'w haddasrwydd a'u

heffeithiolrwydd gael eu gwerthuso ac yn darparu tystiolaeth i lywio'r broses o'u hymestyn i gynnwys asedau hanesyddol eraill, o bosibl.

33. Mae'r canllawiau cysylltiedig wedi'u diwygio er mwyn diffinio'n gliriach pryd y bydd angen datganiad o'r effaith ar dreftadaeth. O dan y fframwaith deddfwriaethol ni fydd gan awdurdodau cynllunio lleol y disgresiwn i anwybyddu'r gofyniad i gyflwyno datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth. At hynny, byddai'n amhriodol gan y byddai'n arwain at anghysondeb mewn gweithdrefnau gofynnol ledled Cymru.

C5. A ydych yn cytuno y dylai datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth ddisodli datganiadau dylunio a mynediad ar gyfer ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig?

Ydw	Nac ydw	Ydw ac Nac ydw	Sylw yn unig	Cyfanswm
33	3	0	3	39
84%	8%	0%	8%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

34. Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig y dylai datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth ddisodli datganiadau dylunio a mynediad mewn ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at ddiffygion datganiadau dylunio a mynediad gan nodi y dylai'r datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth ddarparu gwybodaeth fwy perthnasol ar gyfer penderfynu ar geisiadau. Fodd bynnag, fel gyda chwestiwn 4, yn aml amododd ymgynghoreion eu cefnogaeth yn eu sylwadau.
35. Pwysleisiodd rhai bwysigrwydd dileu'r gofyniad i gyflwyno datganiadau dylunio a mynediad gan na fyddai'n rhaid i berchenogion nac asiantau ddyblygu gwaith wrth baratoi dau ddatganiad. Awgrymodd un ymatebydd y byddai angen datganiadau dylunio a mynediad o hyd er mwyn ategu rhai ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig.
36. Tynnodd sawl ymgynghorai sylw at ansawdd amrywiol datganiadau dylunio a mynediad gan alw am bennu safonau gofynnol ar gyfer datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth. Pwysleisiodd eraill y dylid ymdrin â'r agweddau dylunio ar waith arfaethedig yn llawn mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ac y dylid defnyddio arbenigedd priodol wrth ei baratoi.
37. Ailbwysleisiwyd mewn nifer o ymatebion fod angen cymesuredd mewn datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth. Mynegodd un ymatebydd bryder y gellid peri oedi i'r broses gydsynio pe bai awdurdod cydsynio yn anghytuno â datganiad ymgeisydd o arwyddocâd ar gyfer adeilad rhestredig. Er mwyn osgoi sefyllfaoedd o'r fath, argymhellodd yr ymatebydd y dylid ystyried cyflwyno datganiadau arwyddocâd y cytunwyd arnynt gan yr awdurdodau cydsynio perthnasol a pherchenogion adeilad rhestredig ar wahân i unrhyw waith arfaethedig.

38. Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, awgrymodd un ymatebydd bod datganiadau dylunio a mynediad a datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth yn hollol wahanol i'w gilydd ac y dylai fod angen cyflwyno'r ddau ohonynt. Nododd ymatebydd arall y byddai lefel y wybodaeth a ddarperid mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth yn annhebygol o gyfateb i lefel y wybodaeth a geir mewn datganiadau dylunio a mynediad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

39. Gan fod llawer o ymatebwyr o'r farn nad oedd datganiadau dylunio a mynediad yn rhoi digon o sylw i arwyddocâd adeiladau, bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiadau o'r effaith ar dreftadaeth gael eu cynnwys yn eu lle mewn ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig. Bydd Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru (<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?lang=cy>), sy'n cynnwys disgrifiadau o bob adeilad rhestredig a'r rhan fwyaf o henebion cofrestredig, yn cynnig man cychwyn cwbl hygyrch er mwyn helpu ymgeiswyr i ddeall arwyddocâd eu hadeiladau.
40. Mae'r canllawiau ar baratoi datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth wedi'u diwygio gan ystyried sylwadau ymgynghoreion. Cyhoeddir y canllawiau ymhell cyn i'r gofyniad i gyflwyno datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth ddod i rym er mwyn rhoi digon o amser i berchenogion, asiantau ac awdurdodau cynllunio lleol ymglyfarwyddo â'r gweithdrefnau newydd.

C6.	A ydych yn cytuno y dylai fod angen datganiad mynediad mewn unrhyw ddatganiad o'r effaith ar dreftadaeth pan fyddai'r gwaith arfaethedig newid y fynedfa i adeilad rhestredig neu fynedfa y tu mewn iddo?
------------	--

Ydw	Nac ydw	Ydw ac Nac ydw	Sylw yn unig	Cyfanswm
32	5	0	0	37
86%	14%	0%	0%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

41. Cafodd y cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ddatganiad o'r effaith ar dreftadaeth gael ei gyflwyno mewn perthynas â gwaith a fyddai'n newid y fynedfa i adeilad rhestredig neu fynedfa y tu mewn iddo gymeradwyaeth gyffredinol yr ymatebwyr.
42. Nododd rhai ymgynghoreion y gall trefniadau mynediad (ac iechyd a diogelwch) gael effeithiau sylweddol ar adeiladau hanesyddol. Byddai ystyried trefniadau o'r fath yn gynharach yn y broses ddylunio yn fanteisiol, gan eu bod yn aml yn ôl-ystyriaethau sydd wedi'u cynllunio'n wael. Fodd bynnag, ailbwysleisiwyd bod angen cymesuredd wrth baratoi datganiadau.

43. Roedd dau ymatebydd sy'n cynrychioli buddiannau perchenogion ymhlith y rhai a roddodd ateb negyddol i'r cwestiwn. Er iddynt nodi eu bod o blaid mesurau rhesymol a chymesur i wella mynediad mewn adeiladau hanesyddol, roeddent yn gwrthwynebu unrhyw ofyniad i baratoi datganiadau mynediad ar gyfer adeiladau rhestredig gan nad oedd gofyniad tebyg ar gyfer mathau cyfatebol o adeiladau. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos adeiladau domestig rhestredig nad ydynt yn agored i'r cyhoedd nac yn darparu gwasanaethau. Roedd ymatebydd arall yn anghytuno â'r cynnig gan fod pryderon ynghylch diogelwch, ar y cyfan, yn golygu bod mynediad cyhoeddus i'w adeiladau rhestredig yn amhriodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

44. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen i ddatganiad mynediad fod yn gymesur â'r gwaith sy'n cael ei wneud. Mae hefyd yn derbyn ei bod yn bosibl na fydd datganiad mynediad ar wahân yn briodol ar gyfer gwaith ar annedd breifat.
45. Mae'r canllawiau wedi'u diwygio er mwyn ystyried sylwadau manwl ymatebwyr. Bydd yn nodi'n glir fod angen ystyried materion mynediad mewn unrhyw adeilad sy'n darparu gwasanaethau neu y gall y cyhoedd gael mynediad iddo yn gynnar.

C7.	A ydych yn cytuno â'r cynigion am yr hyn y dylid ei gynnwys mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth?
------------	---

Ydw	Nac ydw	Ydw ac Nac ydw	Sylw yn unig	Cyfanswm
32	4	0	2	38
84%	11%	0%	5%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

46. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnwys arfaethedig ar gyfer datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth, cyflwynodd llawer sylwadau manwl hefyd.
47. Ailddatganodd sawl un bwysigrwydd cymesuredd. Pwysleisiodd un na ddylai fod angen cynnwys mwy o fanylion mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth nag sy'n 'ddigonol i ddeall effaith bosibl y cynnig ar ei arwyddocâd'. Nododd un arall y dylai'r datganiad fod yn gymesur â maint yr effaith yn ogystal â maint y newid, gan fod newidiadau cymharol fach hyd yn oed yn gallu cael effaith anghymesur ar arwyddocâd asedau. Roedd un ymatebydd yn pryderu, er mwyn llunio datganiad o arwyddocâd, y byddai angen gwneud cryn dipyn o ymchwil ac ailadroddod yr awgrym y dylai'r perchennog a'r awdurdod cydsynio gytuno arno ymlaen llaw.
48. Pwysleisiodd ymatebwyr eraill fod angen eglurder ynghlŷn ag amseriad asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth a datganiadau sy'n deillio ohonynt. Gan y

bydd angen i ddatganiad o'r effaith ar dreftadaeth gael ei ddilysu gan yr awdurdod cynllunio lleol, argymhellodd un ymatebydd y dylai fod ar gael ar y cam cynghori cyn ymgeisio fel y gellir nodi a oes angen unrhyw fanylion pellach.

49. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y gellid atgyfnerthu sylfeini cysyniadol y cynnwys arfaethedig. Nododd un densiynau achlysurol rhwng dull gweithredu sy'n seiliedig ar arwyddocâd a dull gweithredu sy'n seiliedig ar adeiledd yn y canllawiau ar gynnal asesiadau. Galwodd rhai ymatebwyr am esboniad pellach o gysyniadau osgoi, lliniaru a gwrthbwysu/gwneud iawn wrth ymdrin â niwed i asedau hanesyddol. Roedd rhai yn anghytuno â'r awgrym y gallai niwed i ased, o dan rai amgylchiadau, gael ei wrthbwysu gan fesurau megis creu mynediad cyhoeddus neu waith cofnodi manwl. Fodd bynnag, heriodd ymgynghorai arall y dybiaeth ei bod yn anochel y byddai newid yn niweidio ased a galwodd am iddi gael ei chydabod y gall fod yn fuddiol weithiau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

50. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod mwyafrif clir o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnwys arfaethedig ar gyfer datganiad o'r effaith ar dreftadaeth. Mae'r canllawiau wedi'u diwygio er mwyn adlewyrchu sylwadau manwl ac adeiladol ymgynghoreion. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig dechrau proses asesu'r effaith ar dreftadaeth, fel y gall lywio cynlluniau ar gyfer newid. At hynny, mae'r canllawiau bellach yn cydnabod yn glir nad yw'n anochel y bydd newid i ased hanesyddol yn niweidiol.

C8.	A yw'r canllawiau, Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, yn cyfleu'n glir pryd, pam a sut y dylid defnyddio proses asesu'r effaith ar dreftadaeth ac a yw'n rhoi cyngor defnyddiol ar sut i gyflwyno'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth?
------------	---

Ydyn	Nac ydyn	Ydyn ac Nac ydyn	Sylw yn unig	Cyfanswm
26	7	1	3	37
70%	19%	3%	8%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

51. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau yn cyfleu'n glir o dan ba amgylchiadau y byddai proses asesu'r effaith ar dreftadaeth yn ddefnyddiol ac yn rhoi cyngor defnyddiol ar sut i gyflwyno datganiad dilynol ond cynigiodd llawer awgrymiadau i wella'r testun drafft. Adleisiwyd rhai o'r awgrymiadau hynny gan y rhai a oedd wedi rhoi ateb amwys neu negyddol i'r cwestiwn.
52. Roedd rhai ymatebwyr yn feirniadol o'r dull gweithredu sylfaenol. Roedd un o'r farn bod y fethodoleg a awgrymwyd yn rhy agored, a galwodd am iddi gael ei gwneud yn fwy cadarn ac atebol. Beirniadodd un arall ddull 'dal popeth' y

canllawiau; er eu bod yn honni eu bod yn cwmpasu treftadaeth adeiledig a chladdedig, fe'u hysgrifennwyd i raddau helaeth iawn o safbwynt y dreftadaeth adeiledig ac nid ymdriniai'n ddigonol â mater asesu arwyddocâd olion archaeolegol ac effeithiau tebygol gwaith.

53. Roedd rhai ymgynghoreion o'r farn y gallai'r canllawiau fod yn gliriach ynghylch pryd mae angen cynnal y broses, yn arbennig mewn perthynas â cheisiadau cynllunio sy'n effeithio ar asedau hanesyddol ac adeiladau a gwmpesir gan eithriad eglwysig.
54. Gofynnodd sawl ymatebydd am fwy o eglurder ynglŷn â'r gofyniad i gynnal asesiadau mynediad ac awgrymu y byddai enghreifftiau yn ddefnyddiol. Dylai'r canllawiau nodi na fydd angen eu cynnal ar gyfer y rhan fwyaf o anheddau preswyl, dim ond ar gyfer asedau hanesyddol y mae'r cyhoedd yn ymweld â hwy neu lle y darperir gwasanaethau.
55. Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod iaith y canllawiau yn awgrymu ei bod yn anochel y bydd newid yn achosi niwed. Galwodd un am i'r posibilrwydd y bydd gwaith datblygu yn cael effaith gadarnhaol neu niwtral gael ei gymryd yn fan cychwyn, rhag ofn y bydd ymgeiswyr yn meddwl ei bod yn anochel ac yn dderbyniol y bydd newid yn achosi niwed. Roedd un arall yn anghytuno â'r defnydd o 'gyfiawnhad' yn y canllawiau. Er mai rhesymeg proses asesu'r effaith ar dreftadaeth yw osgoi niwed, mae'r canllawiau yn mynnu bod pob cynnig yn cael ei gyfiawnhau. Nid yw hyn yn cyd-fynd ag athroniaeth cadwraeth bresennol, sy'n mynnu mai dim ond pan na ellir osgoi niwed y caiff cynigion eu cyfiawnhau. Byddai enghreifftiau o'r hyn a ystyrid yn gymesur mewn asesiad yn ddefnyddiol. Awgrymodd rhai y bydd templed ar gyfer datganiad o'r effaith ar dreftadaeth yn hyrwyddo cysondeb ac yn cynorthwyo ymgeiswyr.
56. Cynigiodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau gwahanol ar gyfer newidiadau i drefn arfaethedig proses asesu'r effaith ar dreftadaeth. Hefyd, lleisiodd ymgynghoreion farn wahanol am y tabl o 'Ddatganiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth Cryno Enghreifftiol'. Roedd un o'r farn bod yr enghreifftiau yn anefnyddiol ac y dylid rhoi senarios manylach yn eu lle, a ddylai gael eu cynnal ar-lein gan Cadw. Cydnabu eraill fod yr enghreifftiau yn ddefnyddiol, ond gwnaethant fynegi amheuan ynghylch eu symlrwydd, agweddau ar eu cynnwys a'u trefniadaeth.
57. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r canllawiau argymhell y gellir integreiddio datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth ag asesiad o'r effaith amgylcheddol, gan roi'r datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth mewn cyd-destun o fewn effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol ehangach.
58. Roedd sawl ymatebydd o blaid cyflogi arbenigwyr cymwysedig a chymwys ac awgrymodd sawl un y dylai'r canllawiau roi manylion cyswllt sefydliadau proffesiynol a allai helpu ymgeiswyr i ddod o hyd i arbenigwyr addas. Fodd bynnag, nododd un ymatebydd na ddylai fod yn ofynnol cyflogi arbenigwr, gan y gallai gynyddu costau tasg syml yn hawdd.

59. Cafodd y ffaith bod y canllawiau yn annog trafodaethau cynnar ag awdurdodau cynllunio lleol neu Cadw wrth ddatblygu datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ei chroesawu gan sawl ymgynghorai ac awgrymwyd y dylid darparu canllawiau pellach i hyrwyddo deialog o'r fath. Tynnwyd sylw at yr angen i ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff cynllunio a chadwraeth awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr a pherchenogion mewn un ymateb.
60. Ymhlith meysydd eraill lle yr awgrymodd ymatebwyr y byddai canllawiau helaethach neu ganllawiau pellach yn ddefnyddiol roedd:
- nodi arwyddocâd a manteision/anfanteision cynigion,
 - paratoi datganiad da o arwyddocâd,
 - y gofynion sylfaenol ar gyfer dilysu,
 - meini prawf gwrthrychol ar gyfer gwerthuso unrhyw asesiad o'r effaith ar dreftadaeth

Ymateb Llywodraeth Cymru

61. Mae'r canllawiau wedi'u gwella drwy ystyried nifer o sylwadau'r ymatebwyr. Ymdriniwyd â materion sy'n ymwneud ag iaith a therminoleg ac ad-drefnwyd a mireiniwyd y fethodoleg asesu. Mae'r canllawiau bellach yn gliriach ynghylch pryd mae datganiad o'r effaith ar dreftadaeth yn ofynnol a phryd mae'n ddewisol. Ehangwyd y drafodaeth ynghylch datganiadau mynediad er mwyn egluro o dan ba amgylchiadau y mae angen eu llunio.
62. Cydnabyddir gwerth enghreifftiau ychwanegol a chânt eu datblygu a'u darparu ar-lein maes o law.

Dogfennau canllaw arfer gorau

E. Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru

C9.	A fydd Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru yn rhoi arweiniad defnyddiol i berchenogion adeiladau rhestredig a'u hasiantau? A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir gwella'r ddogfen?
------------	--

Bydd	Na fydd	Bydd ac Na fydd	Sylw yn unig	Cyfanswm
27	6	0	4	37
73%	16%	0%	11%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

63. Roedd bron dri chwarter yr ymatebwyr, gan gynnwys pob un ond un o'r awdurdod cynllunio lleol a ymatebodd, yn credu y bydd y canllawiau yn ddefnyddiol i berchenogion adeiladau rhestredig a'u hasiantau. Fodd bynnag, cynigiodd llawer awgrymiadau manwl i wella'r canllawiau, gan adlewyrchu,

mewn rhai achosion, farn a fynegwyd gan y rhai a roddodd atebion negyddol neu amwys i'r cwestiwn.

64. Nododd sawl ymatebydd fod y ddogfen wedi'i chyflwyno'n dda ac yn hawdd ei darllen. Fodd bynnag, beirniadodd dau y cywair gan nodi ei fod yn rhy anffurfiol ac yn anghydnaws â chanllawiau eraill a oedd yn destun ymgynghoriad ac nad oedd yn cyfleu natur ddifrifol y gyfundrefn gydsynio. Beirniadodd ymatebwyr â buddiannau enwadol y ffaith nad oedd unrhyw sylw yn cael ei roi i'r system eithriadau eglwysig yn y canllawiau.
65. Daeth i'r amlwg bod gwahaniaeth barn am ymagwedd sylfaenol y ddogfen tuag at reoli newid. Roedd rhai ymatebwyr, a oedd yn cynrychioli buddiannau perchenogion ar y cyfan, o'r farn nad oedd y canllawiau yn gwneud digon i bwysleisio pwysigrwydd newid sensitif a reolir yn dda wrth sicrhau dyfodol hyfyw i adeiladau rhestredig. Dadleuodd eraill, a oedd yn cynnwys cymdeithasau amwynder ac awdurdodau lleol yn bennaf, fod y cyngor yn gwyrho'n rhy bell oddi wrth ragdybiaeth o blaid diogelu.
66. Nododd sawl ymatebydd y byddai angen adnoddau priodol ar awdurdodau lleol i reoli'r amgylchedd hanesyddol a darparu'r lefelau o gyngor ac arweiniad a ragwelir yn y ddogfen. Serch hynny, galwodd ymgynghoreion am i fwy o sylw gael ei roi i rôl awdurdodau fel ffynonellau cyngor, yn enwedig drwy gyfrwng trafodaethau cyn ymgeisio. Roedd hefyd angen rhoi mwy o bwyslais ar y rhan a chwaraeir gan awdurdodau mewn achosion o waith nas awdurdodwyd ac achosion o esgeuluso adeiladau rhestredig.
67. Nododd ymgynghoreion y gallai'r ddogfen gynnig mwy o eglurder neu bwyslais yn y meysydd canlynol:
 - diffinio arbenigwr cymwysedig a chymwys;
 - pwysigrwydd cofnodi a safonau priodol;
 - amgylchiadau lle mae angen cael cydsyniad adeilad rhestredig;
 - rhywogaethau a warchodir y mae gwaith yn effeithio arnynt;
 - strwythurau cwrtil a'u harwyddocâd.
68. Awgrymodd rhai ymgynghoreion y byddai'n ddefnyddiol cynnwys llawer o'r wybodaeth fanwl a geir yn Atodiad D i Gylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig - Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth (y disgwylir iddo gael ei ddisodli gan *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*) yn y canllawiau hyn, o bosibl fel atodiad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

69. Mae Llywodraeth Cymru am i'r canllawiau hyn fod yn hygyrch i gynulleidfa eang, felly mae angen i'r ddogfen fod yn hawdd ei deall a defnyddio iaith gadarnhaol. Mae'n bwysig ei bod yn cyfleu neges glir a chyson am gadwraeth. Ystyriwyd sylwadau manwl ymatebwyr wrth ailystyried a diwygio'r canllawiau. Y nod oedd sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y rhagdybiaeth o blaid diogelu adeiladau rhestredig a chydnabod pwysigrwydd newid sensitif a reolir yn dda o ran sicrhau dyfodol cynaliadwy i asedau hanesyddol.

F. Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru

C10.	A fydd Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yn effeithiol o ran helpu'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau i warchod Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru?
-------------	--

Bydd	Na fydd	Bydd ac Na fydd	Sylw yn unig	Cyfanswm
28	1	0	1	30
93%	3.5%	0%	3.5%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

70. Roedd dros 90% o'r ymatebwyr o roddodd atebion o sylwedd i'r cwestiwn hwn yn cytuno y bydd y canllawiau yn helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i warchod Gwerthoedd Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru. Croesawodd nifer o ymgynghoreion y ddogfen gan nodi ei bod yn drefnus ac yn glir.
71. Nododd yr unig ymatebydd a roddodd ateb negyddol i'r cwestiwn fod y ddogfen yn wahanol o ran ei chynnwys a'i diwyg i'r canllawiau eraill a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad ac argymhellodd y dylid ei hailddrafftio er mwyn sicrhau cysondeb. Adleisiwyd y farn hon gan rai o'r ymatebwyr a roddodd ateb cadarnhaol. Dim ond sylwadau a gynigiwyd gan un awdurdod cynllunio lleol, ond nododd fod y canllawiau yn anfoddfaol. Er iddo gyfaddef bod rhan 4 yn ddefnyddiol, yn hytrach na rhoi cyfeiriad clir roedd gweddill y canllawiau yn agored i'w dehongli.
72. Cyflwynodd nifer o ymgynghoreion sylwadau manwl ar y testun. Nododd rhai y gallai'r canllawiau fod yn gliriach ynglŷn â phwy sy'n gorfod llunio cynlluniau rheoli ar Safleoedd Treftadaeth y Byd a phwy sy'n gyfrifol am y cynlluniau hynny. Gellid egluro'r gydberthynas rhwng y cynlluniau hynny a pholisi cynllunio yn well hefyd.
73. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai hefyd yn fuddiol pe bai'r canllawiau yn egluro'r gwahaniaeth rhwng 'lleoliad' Safle Treftadaeth y Byd a 'chlustogfa' a'r ffordd y caiff yr effaith ar y naill a'r llall ei hasesu yn y broses gynllunio, yn well. Nododd rhai ymgynghoreion fod y diffiniadau o 'glustogfa' a 'lleoliad' a ddefnyddir yn y canllawiau hyn ac yn y fersiwn drafft o *Nodyn Cyngor Technegol 24* yn wahanol i'w gilydd ac y dylid eu cysoni.
74. Mae angen gwahaniaethu'n gliriach rhwng asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth a datganiad dylunio a mynediad a'r amgylchiadau lle mae'n ofynnol eu cynnal. Nododd rhai ymatebwyr fod gan ICOMOS fframwaith ar gyfer asesu'r effaith ar dreftadaeth ac argymhellwyd y dylid ei ddefnyddio, ochr yn ochr â'r canllawiau hyn, i hyrwyddo cysondeb ymhlith awdurdodau cynllunio lleol.
75. Ystyriodd rhai ymgynghoreion werth canllawiau cynllunio atodol o ran hyrwyddo cydweithredu a chysondeb ymhlith awdurdodau cynllunio lleol ac awgrymodd

rhai y dylai'r canllawiau annog awdurdodau yn gryf i fabwysiadu canllawiau cynllunio ategol ar gyfer Safleoedd Treftadaeth y Byd yn eu hardaloedd os nad ei gwneud yn ofynnol iddynt eu mabwysiadu.

76. Nododd ymgynghoreion hefyd y byddent yn croesawu'r canlynol:
- rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n creu Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd;
 - y meini prawf ar gyfer gwaith datblygu a fyddai'n effeithio ar Werth Cyffredinol Eithriadol;
 - cyfarwyddyd mwy penodol o ran pryd y dylid ymgynghori â Cadw;
 - canllawiau manylach ar yr elfennau o Safle Treftadaeth y Byd a fydd yn 'ystyriaeth berthnasol' yn y broses gynllunio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

77. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth gref a gafodd y canllawiau hyn, ond mae wedi'u hadolygu'n llawn gan ystyried y nifer fawr o sylwadau manwl a gyflwynwyd. Mae'r cynnwys a'r diwyg wedi'u cysoni â'r dogfennau canllaw arfer gorau eraill. At hynny, diweddarwyd y cysylltiadau â *Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 24* a'r dogfennau arfer gorau eraill er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y gyfres o ganllawiau a luniwyd i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.
78. Mae'r testun wedi'i ddiwygio er mwyn egluro'r gydberthynas rhwng lleoliad a chlustogfa Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r adran ar ddeall Safleoedd Treftadaeth y Byd wedi'i hehangu er mwyn cynnig mwy o wybodaeth a nodi goblygiadau arysgrifo safle. Mae'r canllawiau hefyd yn cael budd o drafodaeth fwy cryno ynghylch rheoli gwaith datblygu.

C11. **A fydd y canllawiau yn helpu i sicrhau cysondeb wrth reoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, yn enwedig y rheini a leolir mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol?**

Byddant	Na fyddant	Byddant ac Na fyddant	Sylw yn unig	Cyfanswm
24	4	0	2	30
80%	13%	0%	7%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

79. O gymharu â'r cwestiwn blaenorol am ganllawiau ar Safleoedd Treftadaeth y Byd, rhoddodd cyfran uwch (20%) o ymatebwyr ateb negyddol neu gyflwyno sylwadau yn unig. Ailadroddodd rhai eu hatebion i gwestiwn 10 neu gyfeirio atynt.
80. Roedd sawl ymgynghorai o'r farn nad yw'r canllawiau yn ddigon clir na manwl i alluogi awdurdodau lleol i'w dehongli'n gyson. Cydnabu un ymatebydd fod y canllawiau yn dda, ar wahân i un 'hepgoriad hollol amlwg' — sef unrhyw ddatganiad o 'gadwraeth gadarnhaol' yn y ddogfen; dylid croesawu newid

cydymdeimladol os bydd yn sicrhau bod asedau hanesyddol ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yn parhau i fod yn hyfyw a pherthnasol.

81. Serch hynny, roedd y mwyafrif helaeth o'r rhai a roddodd atebion o sylwedd i'r cwestiwn yn cytuno y bydd y canllawiau yn helpu i sicrhau cysondeb wrth reoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru. Mae'r canllawiau 'yn esbonio'r ffordd y caiff safleoedd sy'n bodoli eisoes eu rheoli ar draws ffiniau awdurdodau lleol a ffiniau cenedlaethol, sy'n ddefnyddiol' ac mae'r cyfeiriadau yn y ddogfen at enghreifftiau a geir ar hyn o bryd yng Nghymru yn ddefnyddiol.
82. Mae llawer o themâu a ddaeth i'r amlwg o dan gwestiwn 10 yn ailymddangos yma. Galwyd eto am eglurhad pellach o'r hyn sy'n creu Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd, yn enwedig mewn iaith syml i gynorthwyo cynllunwyr ac ymgeiswyr. Awgrymwyd hefyd y dylai awdurdodau cynllunio lleol sydd â Safle Treftadaeth y Byd sy'n bodoli eisoes neu ddarpar Safle Treftadaeth y Byd yn eu hardal, lunio canllawiau cynllunio atodol fel rhan o'u cynllun datblygu lleol.
83. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y bydd effeithiolrwydd y canllawiau yn dibynnu ar awdurdodau cynllunio unigol, yr adnoddau sydd ar gael iddynt a pha mor benderfynol ydynt o'u rhoi ar waith. Nododd un y byddai cefnogaeth Gweinidogion Cymru, cydgysylltu rhwng awdurdodau lleol a rhannu arfer gorau yn fanteisiol er mwyn hyrwyddo rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yn gyson yn ddymunol ac awgrymodd y gallai'r Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru chwarae rôl ddefnyddiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

84. Mae Llywodraeth Cymru yn falch y bydd y canllawiau yn helpu i sicrhau cysondeb wrth reoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru. Mewn ymateb i sylwadau ymgynghoreion, mae'r drafodaeth ynghylch Gwerth Cyffredinol Eithriadol wedi'i gwella ac mae mwy o bwyslais wedi'i roi ar bwysigrwydd gwaith dylunio cydnaws i reoli Safleoedd Treftadaeth y Byd. Mae'r galw am enghreifftiau dangosol wedi'i nodi a bydd astudiaethau achos ar gael ar wefan Cadw maes o law.

G. Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru

C12.	A fydd Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn annog awdurdodau cynllunio lleol i fabwysiadu dull cyson o weithredu ledled Cymru mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth? A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir gwella'r canllawiau?
-------------	--

Bydd	Na fydd	Bydd ac Na fydd	Sylw yn unig	Cyfanswm
25	5	0	5	35
72%	14%	0%	14%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

85. Roedd dros dri chwarter yr ymatebwyr (77% gan gynnwys dau a gyflwynodd sylwadau yn unig) o'r farn y bydd y canllawiau yn helpu i hyrwyddo dull cyson o weithredu ledled Cymru mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth. Roedd rhai o'r farn bod y ddogfen yn glir ac wedi'i chyflwyno'n dda ac y byddai'n siop 'un stop' ddefnyddiol i awdurdodau lleol, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ym maes treftadaeth. Serch hynny, cododd nifer o ymgynghorion faterion a gwneud sylwadau i wella'r ddogfen.
86. Roedd sawl ymatebydd yn amau a fyddai awdurdodau cynllunio lleol yn gallu cynnal yr arfarniadau a argymhellir, cyflawni cynlluniau rheoli a chynnal adolygiadau rheolaidd ar adeg pan fo adnoddau yn brin. Awgrymodd un ymgynghorai y dylid ystyried arfarniadau a chynlluniau rheoli symlach neu systemau amgen ar gyfer eu llunio.
87. Cafodd amlder yr adolygiadau o ardaloedd cadwraeth sylw mewn sawl ymateb. O ystyried y cyfyngiadau cyllidebol presennol, gofynnodd nifer o ymatebwyr a yw'n ymarferol i awdurdodau cynllunio lleol gynnal adolygiadau bob pum mlynedd neu a oes angen iddynt wneud hynny. Awgrymodd rhai y byddai cylch 10 mlynedd yn fwy realistig ac roedd un ymatebydd o'r farn, os bwriedir pennu'r cyfnod adolygu, y dylai hynny gael ei wneud gan ddeddfwriaeth sylfaenol.
88. Nododd sawl ymatebydd ei bod yn anodd cael gwybodaeth am ardaloedd cadwraeth, arfarniadau a chynlluniau rheoli. Dim ond yn y cofnod amgylchedd hanesyddol priodol y mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol roi gwybodaeth am ardaloedd cadwraeth a dim ond rhai sydd wedi sicrhau ei bod ar gael yn hawdd ar-lein.
89. Roedd un ymatebydd o'r farn bod angen i'r canllawiau eu hunain fod yn gliriach ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud a'r hyn na ellir ei wneud mewn ardal gadwraeth ac argymhellodd y dylid cynnwys gwybodaeth berthnasol o Gylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig sydd ar fin cael ei ddileu. Dylai'r canllawiau hefyd fod yn agored ynghylch y costau ychwanegol i awdurdodau cynllunio lleol a pherchenogion a allai fod yn gysylltiedig â dynodi ardaloedd cadwraeth; unwaith eto mae Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig yn darparu datganiad defnyddiol.
90. Roedd dau ymatebydd ar ddeall y dylai'r system gynllunio fod yn ddigonol i atal adeiladau o werth lleol mewn ardaloedd cadwraeth rhag cael eu colli ac, felly, roedd y drafodaeth ynghylch rhestru lleol yn y canllawiau wedi'u drysu. Roedd angen trin y mater yn gyson yn y canllawiau hyn, sef *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru a Nodyn Cyngor Technegol 24*. Nid oedd ymatebydd arall yn gwrthwynebu defnyddio rhestrau lleol i gefnogi ardaloedd cadwraeth, ond roedd yn amau a fyddai'n ymarferol ac yn cyfrannu at y gwaith o warchod asedau.
91. Croesawodd un ymatebydd a oedd yn cynrychioli buddiannau archaeolegol y cyfeiriad at werth archaeolegol fel y maen prawf ar gyfer diffinio diddordeb arbennig ond gofynnodd am i'r potensial i ddiddordeb archaeolegol (claddedig

ac ar wyneb y ddaear) gyfrannu at ddiddordeb arbennig a chymeriad ardal gadwraeth gael ei gydnabod yn fwy penodol. Nododd ymgynghorai arall nad oedd y ddogfen yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at nodweddion tirwedd hanesyddol, a all ddarparu cyd-destun hanesyddol ychwanegol wrth ystyried lleoliad ardaloedd cadwraeth.

92. Roedd rhai ymgynghoreion o'r farn bod y canllawiau yn rhy gyffredinol i fod o ddefnydd ymarferol gan fod gan awdurdodau cynllunio lleol a swyddogion cadwraeth unigol athroniaethau gwahanol a bod gwahaniaeth mawr rhwng nodweddion ac anghenion ardaloedd cadwraeth. Roeddent hefyd o'r farn bod y fethodoleg arfarnu yn rhy gymhleth ac yn cymryd gormod o amser o'i chymharu â'r hyn a gynigir gan Historic England.

Ymateb Llywodraeth Cymru

93. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ffaith bod y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn y byddai'r canllawiau yn sicrhau cysondeb wrth reoli ardaloedd cadwraeth ledled Cymru. Mae'n cydnabod y pwysau sydd ar awdurdodau cynllunio lleol ac yn ceisio darparu canllawiau clir a hyblyg a fydd yn eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol penodol mewn perthynas ag arfarniadau ac adolygiadau o ardaloedd cadwraeth. Mae'r canllawiau wedi'u hadolygu a, lle y bo'n briodol, wedi'u diwygio gan ystyried sylwadau ymatebwyr.

H. Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru

C13.	A yw'r egwyddorion cyffredinol a'r cyngor ar arferion da yn Rheoli Rhestrau o Asedau o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru yn rhoi digon o arweiniad i awdurdodau cynllunio lleol ar sefydlu a defnyddio rhestrau lleol? A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir gwella'r canllawiau?
-------------	---

Ydyn	Nac ydyn	Ydyn ac Nac ydyn	Sylw yn unig	Cyfanswm
23	10	1	4	38
61%	26%	3%	10%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

94. Rhoddodd mwyafrif clir o'r rheini a ymatebodd i'r cwestiwn ateb cadarnhaol a chafodd y canllawiau eu croesawu gan sawl un. Fodd bynnag, mynegodd llawer amheuan ynghylch agweddau ar y canllawiau a chyflwyno sylwadau manwl ar rannau o'r testun. Adleisiwyd rhai o'r sylwadau hynny gan y 39% o'r ymatebwyr a roddodd ateb negyddol neu a oedd yn amwys am y canllawiau.
95. Dro ar ôl tro mynegodd ymatebwyr bryder ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen i lunio a rheoli rhestr leol, yn enwedig gan ddefnyddio'r gweithdrefnau llawn a nodir yn y canllawiau. Oherwydd y problemau sy'n gysylltiedig ag

adnoddau, croesawodd rhai statws gwirfoddol rhestrau lleol ac roeddent o'r farn y dylid rhoi mwy o bwyslais arno.

96. Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi'r awgrym i gynnwys grwpiau cymunedol ac yn cydnabod y cyfraniad pwysig y gallent ei wneud i restrau lleol. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol neilltuo cryn dipyn o adnoddau o hyd er mwyn cefnogi grwpiau o'r fath a choladu a dilysu unrhyw ddata a gesglid.
97. Pwysleisiodd sawl ymatebydd bwysigrwydd rheoli disgwyliadau drwy nodi'n glir nad yw'r ffaith bod ased wedi'i gofnodi ar restr leol yn rhoi unrhyw ddiogelwch ychwanegol iddo. Nododd nifer o ymatebwyr fod rhestru lleol fel petai'n creu system haenog, gan osod haen rhwng asedau a ddynodwyd yn genedlaethol a'r asedau hynny nas dynodwyd sydd wedi'u cofnodi mewn cofnodion amgylchedd hanesyddol. Roedd un ymatebydd o'r farn y gallai hyn fygwth yr ystyriaeth a roddir i asedau hanesyddol eraill nas dynodwyd.
98. Ystyriodd rhai ymatebion faterion ymarferol sy'n ymwneud ag ymgorffori rhestrau lleol mewn cofnodion amgylchedd hanesyddol. Nododd sawl ymatebydd y bydd angen i awdurdod cynllunio lleol gysylltu â'r cofnod amgylchedd hanesyddol perthnasol er mwyn sicrhau bod unrhyw ddata a ddarperir mewn fformat addas a'u bod yn cyrraedd y safonau gofynnol.
99. Cafwyd sylwadau gan sawl ymgynghorai ar y meini prawf enghreifftiol yn adran 2.2 o'r canllawiau. Gofynnodd un pam nad oedd y meini prawf wedi'u seilio ar y gwerthoedd treftadaeth yn *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* neu pam nad oeddent wedi cael eu cysylltu â'r egwyddorion hynny. Roedd un awdurdod lleol o'r farn bod cwmpas y meini prawf cymdeithasol a chymunedol a awgrymwyd wedi'u llunio mor fras fel y byddai bron pob amwynder lleol yn gymwys. Roedd rhai o'r farn y dylai'r meini prawf gydnabod potensial archaeolegol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid ymestyn gweithgarwch rhestru lleol gan gynnig y dylid cynnwys tirweddau hanesyddol a choed, llwyni a gwrychoedd sy'n cyfrannu at natur unigryw leol.
100. Roedd rhai ymatebwyr o blaid cynnal arolygon systematig i nodi asedau o ddiddordeb lleol arbennig, gan y gallai rhestru ad hoc atal adeiladau hanesyddol rhag cael eu hailddefnyddio. Fodd bynnag, nododd un ymgynghorai y byddai cynnal arolwg o'r fath yn dasg enfawr i awdurdod gwledig yn bennaf. Dadleuodd dau ymatebydd bod rhestru ad hoc yn system gwbl briodol ar gyfer safleoedd a nodwyd drwy ymchwiliadau archaeolegol wedi'u harwain gan waith datblygu.
101. Cynigiodd y canllawiau systemau ar gyfer ymgynghori â pherchenogion a deiliaid a chroesawyd adolygiadau o benderfyniadau rhestru lleol, ar y cyfan. Roedd rhywfaint o wahaniaeth barn ynglŷn â'r rhesymau arfaethedig dros gynnal adolygiad. Er bod un ymatebydd o'r farn bod y rhesymau yn gyfyngedig ac yn dechnegol, a hynny'n gwbl briodol, nododd un arall y dylai fod yn bosibl adolygu'r penderfyniad ei hun, p'un a oes tystiolaeth newydd ai peidio.

102. Cafwyd nifer o sylwadau ar y canllawiau ar gyfarwyddiadau o dan Erthyglu 4. Roedd un ymatebydd yn synnu nad oedd gweithdrefnau o dan Erthygl 4(1) wedi'u newid i ddileu'r gofyniad i gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Pwysleisiodd un ymatebydd yr effaith y gall newidiadau bach cronol a wneir o dan hawliau datblygu a ganiateir ei chael ar asedau o ddiddordeb lleol. Dim ond cyfarwyddiadau o dan Erthygl 4(2) a all atal newidiadau o'r fath, ond mae'n amheus a ellir eu defnyddio'n effeithiol i ddiogelu asedau ar restr leol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

103. Mae Llywodraeth Cymru yn dra ymwybodol o'r pwysau sydd ar awdurdodau cynllunio lleol o ran adnoddau, ond mae'n ceisio darparu system a fydd yn eu galluogi i nodi a chydabod asedau sy'n bwysig yn lleol tra'n creu cyfleoedd i gynnwys y gymuned, os byddant yn dewis gwneud hynny. Y nod oedd llunio methodoleg hyblyg y gellir ei haddasu'n hawdd er mwyn bodloni gofynion unigol awdurdodau lleol, tra'n sicrhau cysondeb ac atebolrwydd o ran y dull o lunio rhestrau lleol.

104. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi cymeradwyo'r canllawiau, er ei bod yn cydnabod bod llawer wedi cyflwyno sylwadau manwl ar y testun. Mae'r canllawiau wedi'u hadolygu gan ystyried yr ymatebion hynny. Mae'r adran sy'n ymdrin â rheoli datblygu wedi'i gwella ac, mewn ymateb i nifer o sylwadau, mae mwy o sylw wedi'i roi i gyfarwyddiadau o dan Erthygl 4.

I. *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*

C14. *A yw Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru yn esbonio'n ddigon da pam mae lleoliad yn bwysig a sut y dylid ei asesu?*

Ydy	Nac ydy	Ydy ac Nac ydy	Sylw yn unig	Cyfanswm
25	10	1	3	39
64%	26%	2%	8%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

105. Roedd bron dau o bob tri o'r ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau yn esbonio pwysigrwydd lleoliad a sut y dylid ei asesu yn ddigon da. Roedd 10% arall, a roddodd ateb amwys i'r cwestiwn neu a gynigiodd sylwadau yn unig, yn gefnogol ar y cyfan ond roedd ganddynt bryderon ynghylch agweddau penodol. Croesawodd sawl ymgynghorai, gan gynnwys y rhai a roddodd atebion negyddol, y canllawiau a chynigiodd cryn nifer o ymatebwyr sylwadau manwl ar y testun.

106. Cyflwynodd nifer o ymatebwyr sylwadau ar y diffiniad o leoliad yn y canllawiau. Roedd tri o'r farn bod y diffiniad mor amwys fel ei fod yn tanseilio defnyddioldeb y ddogfen. Nododd eraill fod y diffiniad wedi newid o'r un a geir yn *Egwyddorion*

Cadwraeth a'i fod yn wahanol i'r un a ddefnyddir yn *Nodyn Cyngor Technegol* 24. Dylid mabwysiadu diffiniad ffurfiol a'i ddefnyddio ym mhob dogfen.

107. Cafodd y gydberthynas rhwng lleoliad ac arwyddocâd sylw mewn sawl ymateb. Nododd rhai ymatebwyr nad oes fawr ddim trafodaeth ynghylch pwysigrwydd lleoliad a sut mae'n ategu arwyddocâd asedau. Roedd un ymgynghorai o'r farn nad yw'r canllawiau yn cydnabod y gall lleoliad gyfrannu at arwyddocâd asedau hanesyddol i wahanol raddau (cadarnhaol, negyddol a niwtral) neu, mewn rhai achosion, nad yw'n cyfrannu ato o gwbl.
108. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y canllawiau yn anghyson o ran y ffordd y maent yn ymdrin â lleoliadau hanesyddol (ôl-syllol) a modern. Gofynnodd un ai'r nod yw 'ail-greu lleoliad gwreiddiol yr ased hanesyddol neu ddiogelu ei leoliad modern?' Gallai'r diffyg eglurder hwn greu anawsterau ymarferol, gwirioneddol i ymarferwyr.
109. Roedd un ymgynghorai o'r farn bod y canllawiau yn rhy gyfyngol ac y gellid eu dehongli i awgrymu ei bod yn anochel y bydd unrhyw newid arfaethedig i'r lleoliad yn effeithio ar yr ased hanesyddol ei hun. Dylai'r canllawiau gydnabod mai dim ond pan gaiff arwyddocâd ased ei niweidio neu ei golli y mae newid yn niweidiol. Dylent hefyd nodi'n glir y dylai gwaith asesu ganolbwyntio ar y ffordd y bydd gwaith datblygu o fewn lleoliad yr ased hanesyddol yn effeithio ar ei arwyddocâd ac nid ar yr effaith ar y lleoliad ei hun.
110. Beirniadodd un ymatebydd y ffaith bod y canllawiau wedi eithrio tirweddau hanesyddol cofrestredig rhag cael eu hystyried, sy'n awgrymu nad ydynt yn asedau hanesyddol. Roedd tri ymatebydd o'r farn nad yw'r canllawiau yn rhoi digon o gyngor ar dirweddau diwylliannol.
111. Roedd ymgynghorai arall am weld y canllawiau hyn a'r egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy a ymgorfforir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cael eu hintegreiddio'n agosach. Byddai'n synhwyrol creu un dull unedig o ymdrin â'r dirwedd yn gyffredinol gan fod y gwahaniaeth sydd wedi'i greu rhwng y dirwedd hanesyddol a'r dirwedd naturiol yn gwbl artiffisial.
112. Dadleuodd un ymatebydd o blaid cynnwys rhagdybiaeth gliriach yn y canllawiau yn erbyn gwaith datblygu a fyddai'n amharu ar leoliad adeilad hanesyddol, yn arbennig pan fyddai'n tansilio hyfywedd economaidd tŷ hanesyddol. Nododd un arall nad yw'r canllawiau yn cysylltu lleoliad ag asesiad o'r effaith ar dreftadaeth.
113. Ymddangosodd ceisiadau am enghreifftiau wedi'u gweithio mewn nifer o ymatebion. Awgrymodd un ymgynghorai y dylid parhau i gyhoeddi canllawiau a diweddariadau ar y dehongliad o gyfraith achosion gyda sylwadau gan Cadw.
114. Nododd sawl ymatebydd argymhelliad y canllawiau y dylid cyflogi 'arbenigwr cymwysedig a chymwys' weithiau ac awgrymu y dylid darparu gwybodaeth am achrediaidau a chyfeiriadau at gyrff proffesiynol priodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

115. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y derbyniad cadarnhaol, ar y cyfan, y mae *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* yn ei gael gan ymgynghorwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod gan Gymru ganllawiau penodol ar yr agwedd bwysig hon ar y gwaith o reoli'r amgylchedd hanesyddol. Cynigiodd llawer o ymatebwyr sylwadau penodol a chraff ac ystyriwyd y rhain yn llawn wrth adolygu'r testun.
116. Mewn ymateb i nifer o sylwadau, mae'r diffiniad o leoliad wedi cael ei ailystyried a'i ehangu. Yn yr un modd, mae'r gydberthynas rhwng lleoliad ac arwyddocâd wedi'i hesbonio'n llawnach. Nodwyd yn glir nad yw'r lleoliad ei hun yn ased hanesyddol.
117. Manteisiwyd ar y cyfle i fynd i'r afael â'r anghysondeb ymddangosiadol o ran y modd yr ymddrinir â lleoliadau modern ac ôl-syllol. Nodwyd yn glir hefyd na fwriedir i'r canllawiau hyn ymddrin ag effaith newid o fewn lleoliad yr amgylchedd hanesyddol ar raddfa tirwedd.
118. Fel mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y byddai enghreifftiau mwy penodol wedi bod yn ddefnyddiol i lawer o ymgynghorwyr. Caiff astudiaethau achos eu paratoi i'w cyhoeddi ar-lein ar wefan Cadw maes o law.

C15. A yw'r canllawiau yn esbonio'n ddigon da elfennau gweledol ac, yn arbennig, elfennau anweledol lleoliad?

Ydyn	Nac ydyn	Ydyn ac Nac ydyn	Sylw yn unig	Cyfanswm
25	9	0	4	38
66%	24%	0%	10%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

119. Roedd dau o bob tri ymatebydd yn cytuno bod y canllawiau yn esbonio elfennau gweledol ac anweledol lleoliad yn ddigon da. Nododd rhai fod y canllawiau yn glir ac yn ddefnyddiol, er bod eraill wedi nodi bod y materion yn gymhleth ac y gallai fod yn llawer mwy anodd darparu tystiolaeth o elfennau anweledol/anniriaethol neu eu cyfiawnhau fel rhesymau dros wrthod, yn enwedig ar apêl. Byddai eglurhad pellach o ffactorau synhwyraidd wrth deall lleoliad asedau hanesyddol yn ddefnyddiol.
120. Unwaith eto galwodd nifer o ymatebwyr a roddodd ateb negyddol neu a gynigiodd sylwadau yn unig am enghreifftiau i egluro elfennau gweledol ac anweledol lleoliad gan eu bod yn oddrychol iawn ac yn agored i'w herio. Fodd bynnag, roedd un ymgynghorai'n amau cyfraniad 'elfennau anweledol' at leoliad, gan nodi bod eu perthnasedd 'yn dal i fod yn aneglur'.
121. Roedd sawl ymgynghorai o'r farn bod angen ystyried mater effaith weledol ymhellach. Nododd un nad yw mynegi'r rhyngwelededd rhwng ased a'r

datblygiad yn unig o reidrwydd yn asesiad digonol o'r effaith weledol a bod hyn yn broblem benodol i adeiladau rhestredig. Byddai enghraifft benodol wedi'i gweithio o adeilad rhestredig mewn anheddiad — lle mae lleoliad yr ased wedi'i gyfyngu i'r strydlun cyfagos, ond lle mae gan yr ased olygfeydd i ddatblygiad ymhellach i ffwrdd — yn ddefnyddiol iawn. Nododd un arall y byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad pellach o'r defnydd o'r termau 'lleoliad hanfodol' a 'lleoliad' a 'golygfeydd pwysig' a 'golygfeydd atodol'.

122. Nododd un ymatebydd fod ymyrraeth oddi uchod, er enghraifft, sy'n deillio o agosrwydd maes awyr neu'r defnydd o ddronau, wedi'i hepgor o elfennau anweledol lleoliad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

123. Tynnodd sylwadau craff ymatebwyr sylw at nifer o faterion y rhoddwyd sylw iddynt pan ailystyriwyd y canllawiau. Mae'r effaith weledol ar leoliad wedi'i hystyried yn fanylach gan roi sylw penodol i'r gwaith o asesu golygfeydd gwreiddiol, golygfeydd wedi'u newid a golygfeydd modern i, o ac ar draws ased hanesyddol. Mae mater ymyrraeth o'r awyr gan feysydd awyr neu ddronau hefyd wedi'i ymgorffori yn y testun. Yma unwaith eto, caiff astudiaethau achos i ddangos elfennau gweledol ac anweledol lleoliad eu datblygu a'u cyhoeddi ar wefan Cadw maes o law.

C16. A yw'r canllawiau yn esbonio sut i ystyried elfennau gweledol ac anweledol lleoliad yn ystod y broses asesu? A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir eu gwella?

Ydyn	Nac ydyn	Ydyn ac Nac ydyn	Sylw yn unig	Cyfanswm
24	7	1	5	37
65%	19%	3%	13%	100%

Crynodeb o'r dadansoddiad

124. Fel gyda'r ddau gwestiwn blaenorol am y canllawiau ar leoliad asedau hanesyddol, rhoddodd bron dau o bob tri ymatebydd ateb cadarnhaol. Yn wahanol i'r cwestiynau blaenorol, rhoddodd canran ychydig yn llai (19%) ateb negyddol, tra gwnaeth 16% sylwadau yn unig neu roi ateb amwys. Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau manwl ar y testun ac, mewn rhai achosion, awgrymwyd diwygiadau.

125. Codwyd nifer o faterion a nodwyd yn yr ymatebion i'r cwestiynau blaenorol eto. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys y canlynol:

- y gydberthynas rhwng lleoliad ac arwyddocâd,
- dymunoldeb enghreifftiau wedi'u gweithio a chanllawiau pellach ar agweddau anweledol ar leoliad,
- y diffiniad o 'arbenigwr cymwysedig a chymwys' gyda chyfeiriadau at gyfrff proffesiynol ac achrediadau,

- y ffordd mae cymeriad a nodweddion wedi'u hesgeuluso mewn cymhariaeth,
 - y ffordd anghyson yr ymdrinnir â lleoliad hanesyddol (ôl-syllol) a lleoliad modern.
126. Awgrymodd un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau yn egluro amcanion yr asesiad o leoliad drwy gyfeirio'n uniongyrchol at y ddeddfwriaeth berthnasol. Dylai'r drafodaeth ynghylch dadansoddi lleoliad gyfeirio at *Egwyddorion Cadwraeth* am fod nodi'r ffordd y mae lleoliad yn cyfrannu at werthoedd treftadaeth (tystiolaethol, hanesyddol, esthetig, cymunedol) ased yn fethodoleg gydnabyddedig ac mae wedi'i gydnabod mewn cyfraith achosion.
127. Nododd un ymgynghorai, er y gall fod angen asesiad gan arbenigwr mewn rhai achosion, y dylai'r canllawiau bwysleisio nad oes ei angen ym mhob achos a rhoi cyngor ynglŷn â ble i dynnu'r llinell. Nododd ymatebydd arall y byddai rhestr o arbenigwyr — archaeolegwyr, penseiri tirwedd, haneswyr ac eraill — a allai gyfrannu at asesiadau neu gynlluniau rheoli perchenogion, yn cynorthwyo defnyddwyr y canllawiau.
128. Roedd rhai ymgynghoreion yn pryderu na ddylid cyfyngu gormod ar leoliad ac na ddylid ei ddiffinio'n rhy fanwl. Mae angen ystyried goblygiadau datblygiadau arfaethedig i asedau treftadaeth a hynny dros bellter mawr. Awgrymodd un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r canllawiau yn trafod mater pellter safle datblygu o ased hanesyddol wrth bennu cwmpas asesiad o leoliad. Dylid nodi'n glir na ddylid penderfynu ar y cwmpas drwy bennu pellter mympwyol o'r datblygiad. Beirniadodd ymatebydd arall atodiad y ddogfen sy'n nodi'r meini prawf ar gyfer gwaith ymgynghori awdurdodau cynllunio lleol â Cadw ynghylch ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar leoliad henebion cofrestredig. Nid yn unig y mae'n aneglur pam maent yn gymwys i henebion cofrestredig yn unig ond, ym marn yr ymatebydd, maent yn rhy ragnodol.
129. Mynegodd un ymatebydd amheumon ynghylch datganiad y canllawiau y dylid mesur maint yr effaith yn y broses asesu. Mae risg y gallai dadansoddi meintiol olygu bod ystyriaethau ansoddol yn cael eu hanwybyddu, gan gynnwys pam mae cynllun yn niweidiol neu pam nad yw'n niweidiol. Lleisiodd ymatebydd arall bryderon cryf ynghylch y defnydd o dermau megis 'cadarnhaol', 'niwtral' a 'negyddol, a 'difrifol', 'cymedrol', 'bach' a 'bach iawn' yn y broses asesu. Mae cyfraith achosion wedi bwrw amheuaeth ar y fethodoleg hon mewn nifer o achosion. Yn hytrach na defnyddio termau mor ddiagram â 'niwtral' neu 'cymedrol', bydd asesiad naratif ac ansoddol yn helpu gwneuthurwr penderfyniadau i bwysu a mesur yr effaith yn erbyn y manteision a deall pwyntiau mân arwyddocâd agweddau ar leoliad.
130. Argymhellodd un ymgynghorai y dylid croesgyfeirio'r broses asesu, yn enwedig y broses o briodoli arwyddocâd, yn well ag iaith y *Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment*, gan ddileu unrhyw ddryswch yn hyn o beth. Byddai tabl arwyddocâd yn y canllawiau sy'n nodi i ba gategori y mae asesiad yn perthyn o ran y geiriad yn y canllawiau hynny yn helpu i amddiffyn penderfyniadau.

131. Roedd un ymatebydd o'r farn bod agweddau ar y drafodaeth ynghylch lliniaru yn negyddol eu naws ac awgrymodd y dylid ystyried lliniaru a gwella gyda'i gilydd, gan roi mwy o arwyddocâd i'r cydbwysedd rhwng lliniaru a gwella. Nododd un arall y byddai'n ddefnyddiol cael canllawiau pellach ar yr amgylchiadau lle y byddai angen mesurau gwrthbwysu a sut yr ymdrinnid â hyn ym mhroses y cais cynllunio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

132. Nododd y sylwadau manwl ar y testun a wnaed gan ymatebwyr nifer o feysydd lle y gellid egluro neu wella'r canllawiau. Er enghraifft, mae'r drafodaeth ynghylch dadansoddi lleoliad bellach yn cyfeirio'n glir at *Egwyddorion Cadwraeth* a'r canllawiau ar asesu arwyddocâd a geir ynddi. Pwysleiswyd y ffaith nad oes angen asesiad arbenigol o leoliad bob amser a nodwyd mathau o arbenigwyr a allai, o bosibl, helpu gydag asesiad o leoliad neu gynllun rheoli.
133. Ystyriwyd y pryderon a godwyd gan ymgynghorwyr ynghylch y termau a ddefnyddir yn y broses asesu. Felly, mae'r hierarchaeth a ddefnyddir i werthuso effeithiau cadarnhaol a negyddol o fewn lleoliad hanesyddol wedi'i symleiddio er mwyn dileu termau amwys a goddrychol. Ymdriniwyd yn llawnach â mater lliniaru hefyd.

C17.	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, a fydddechystal â'u nodi yma.
-------------	---

Crynodeb o'r dadansoddiad

134. Cododd 24 o ymatebwyr faterion mewn ymateb i gwestiwn 17. Mewn achosion lle roedd y materion yn ymwneud â chwestiynau cynharach, maent wedi'u hystyried yn y dadansoddiad perthnasol ac ni chânt eu crynhoi yma.
135. Daeth sawl thema a oedd yn ymwneud â'r canllawiau a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn fwy cyffredinol i'r golwg o'r ymatebion. Roedd rhai ymatebwyr am gael eglurhad ynglŷn â statws y canllawiau arfer gorau sydd wedi'u cyflwyno er mwyn ymgynghori arnynt.
136. Nododd un ymatebydd y gellid gwella cyfeiriadau yn y canllawiau at asedau hanesyddol yn yr amgylchedd morol a'r amgylchedd morlun a'u cysylltu â Datganiad Polisi Morol y DU a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru sydd ar fin cael ei gyhoeddi. Gofynnodd eraill am i gyfeiriadau priodol at eithriad eglwysig a'r systemau rheolaeth mewnol sy'n rhoi cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer addoldai sy'n cael eu defnyddio gael eu cynnwys yn y gyfres hon o ddogfennau.
137. Nododd un ymatebydd fod angen dull mwy integredig o reoli'r amgylchedd hanesyddol, sy'n gweithredu ar y cyd â'r systemau amgylcheddol a'r systemau cynllunio ac sy'n eu hategu. Dylid adolygu a diwygio *Egwyddorion Cadwraeth* er mwyn ystyried deddfwriaeth newydd yng Nghymru.

138. Nododd rhai ymgynghoreion faterion penodol y dylid rhoi sylw iddynt mewn mesurau ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru, yn eu barn hwy. Roedd y rhain yn cynnwys:
- Treftadaeth forwrol nofiol — dylid cynnig gwarchod llongau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac sydd wedi'u cofnodi ar restr casgliad craidd y Pwyllgor Llongau Hanesyddol Cenedlaethol.
 - Gwaith monitro a gorfodi i warchod adeiladau rhestredig — nid yw'r systemau presennol yn gwarchod adeiladau rhestredig, sy'n rhan o ddiwylliant Cymru ac yn cyfrannu at dwristiaeth ac at greu swyddi.
 - Ymddiriedolaeth y Theatrau — dylid ei gwneud yn ymgynghorai statudol ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig.
 - Enwau lleoedd hanesyddol — dylid eu gwarchod fel asedau hanesyddol a chymunedol. Awgrymodd un ymatebydd y dylid eu cynnwys ar restrau lleol a rhoi statws gwarchodedig iddynt o dan y system gynllunio. Roedd un arall o blaid eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Dylai *Nodyn Cyngor Technegol 24* ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad Comisiynydd y Gymraeg cyn y gwneir unrhyw newidiadau i enwau lleoedd, strydoedd neu nodweddion daearyddol.
139. Manteisiodd ymgynghoreion eraill ar y cyfle i wneud sylwadau cyffredinol ar y ffordd y caiff amgylchedd hanesyddol Cymru ei reoli a'i ddehongli ar hyn o bryd. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys y canlynol:
- Mae angen i bob sefydliad gyrraedd ISO 9001 — System Rheoli Ansawdd, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'i gwasanaeth sifil.
 - Dylai fod sawl arolygiaeth leol yng Nghymru. Byddai eu gwybodaeth leol a'r ffaith eu bod yn agos at adeiladau hanesyddol yn golygu eu bod yn fwy effeithiol a pherthnasol.
 - Mae angen i Gymru gael ei sefydliad treftadaeth ei hun, sy'n hollol annibynnol ar unrhyw sefydliad yn Lloegr. Dylai grantiau gael eu hystyried yn ofalus gan y sefydliad treftadaeth Cymreig newydd hwn.
 - Mae Blwyddyn y Chwedlau wedi annog straeon am gymeriadau o hanes Cymru sydd â naws Hollywoodaidd. Dylai fod swyddog cynghori i gyfyngu ar greadigrwydd masnachol storïwyr digidol.
 - Nid yw fersiynau traddodiadol o hanes yn gwneud cyfiawnder â hanes Cymru o tua 325 CC hyd at oresgyniad y Rhufeiniaid, yr Angliaid, ac ymlaen.

Ymateb Llywodraeth Cymru

140. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau eang a wnaed gan ymatebwyr mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'n cydnabod bod angen canllawiau pellach ar reoli amgylchedd hanesyddol Cymru, gan gynnwys materion megis yr amgylchedd hanesyddol morol, adeiladau sydd mewn perygl ac eithriad eglwysig, ac mae'n cynllunio canllawiau arfer gorau ychwanegol ar gyfer y dyfodol. O ystyried yr amrywiaeth eang o ganllawiau a fydd ar gael, ni fyddai'n ymarferol eu cynnwys yn *Nodyn Cyngor Technegol 24*.
141. Yr egwyddor arweiniol sy'n sail i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a'r holl bolisiâu, cyngor a chanllawiau ategol, yw rheoli newid yn yr

amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am newid cydymdeimladol er mwyn dod o hyd i ffyrdd cynaliadwy o ddefnyddio asedau hanesyddol ac mae wedi cyfleu'r neges honno yn y dogfennau a gyflwynir yma er mwyn ymgynghori arnynt a bydd yn parhau i'w bwysleisio yn y dyfodol.

142. Mae Llywodraeth Cymru yn llunio rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru a bydd yn cyhoeddi canllawiau i gyrff cyhoeddus penodol ar ddefnyddio cofnodion amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys y rhestr o enwau lleoedd, wrth gyflawni eu swyddogaethau. Gyda'i gilydd, bydd y mesurau hyn yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol ac yn annog awdurdodau cyhoeddus ac unigolion preifat i barhau i'w defnyddio.

Rhestr o'r ymatebwyr (wedi'u trefnu yn ôl categori)

Nodir cyfanswm yr ymatebwyr ar gyfer pob categori yn y pennawd. Mae pob cofnod yn rhoi rhif yr ymateb i'r ymgynghoriad, enw'r unigolyn neu'r sefydliad sy'n ymateb (oni ofynnwyd inni beidio â'i ddatgelu) a lleoliad yr ymatebydd (os yw'n hysbys).

Unigolyn — 8		
02	Evan Owen	Dyffryn Ardudwy
03	Richard Ebley	
04	Brian Williams	
05	Gwyn Jones	
06	Andrew Yale	Porthmadog
07	Myfanwy Evans	Trefdraeth, Sir Benfro
08	Kenneth J. Richards	Toronto, Canada
41	Alun Lenny	Caerfyrddin

Busnes — 8		
15	The Environmental Dimension Partnership	Barnsley, Swydd Gaerloyw.
17	Heritage Collective Ltd & Archaeology Collective Ltd	Llundain
24	Y Grid Cenedlaethol	Leeds
28	SP Energy Networks	Prenton, Swydd Gaer
36	Dŵr Cymru	Nelson
37	Trysor	Rhydaman
40	Lichfields	Caerdydd
46	Richards, Moorehead & Laing Ltd ar ran Dorothea Lakes	Rhuthun

Awdurdod cynllunio lleol — 13		
14	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	Castell-nedd
18	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	Glynebwy
21	Cyngor Gwynedd	Pwllheli
22	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Pen-y-bont ar Ogwr
30	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Pont-y-pŵl
31	Cyngor Sir Ceredigion	Aberaeron
35	Cyngor Sir Penfro	Hwlfordd
38	Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru (ymateb ar y cyd)	Penrhyndeudraeth
39	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Wrecsam
42	Cyngor Dinas Caerdydd (ymateb swyddogion)	Caerdydd
49	Cyngor Bro Morgannwg	Y Barri
50	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Pontypridd
54	Cyngor Dinas Casnewydd	Casnewydd

Un o asiantaethau'r Llywodraeth/Corff arall yn y sector cyhoeddus — 3		
01	Amgueddfa Abertawe	Abertawe
13	Cyfoeth Naturiol Cymru	Aberystwyth
20	Ymddiriedolaeth y Theatrau	Llundain

Corff proffesiynol/Grŵp â diddordeb — 11		
10	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed	Llandeilo
16	Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr	Reading
23	Y Gymdeithas Tai Hanesyddol	Llundain
27	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Caerdydd
33	Our Chartist Heritage	Casnewydd
43	Cymdeithas y Cyfreithwyr	Llundain
44	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru	Caerdydd
47	Y Cyngor Archeoleg Brydeinig	Caerefrog
48	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	Aberystwyth
51	Cymdeithas Swyddogion Pensaernïol Llywodraeth Leol Cymru	Penrhyndeudraeth
53	Cymdeithas Swyddogion Pensaernïol Llywodraeth Leol Cymru (ymateb ychwanegol)	Parc Gwledig Loggerheads, Sir Ddinbych

Y sector gwirfoddol — 6		
09	Yr Eglwys Fethodistaidd	Manceinion
11	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg/Gwent	Abertawe
12	Cytûn/Eglwysi Ynghyd yng Nghymru	Caerdydd
19	Grŵp Treftadaeth Cymru	Caerdydd
25	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Y Trallwng
34	Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru	Caerdydd

Grŵp arall nas rhestrir uchod — 5		
26	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys	Y Trallwng
29	Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon	Pont-y-pŵl
32	Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru	Newark, Swydd Nottingham
45	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd	Bangor
52	Cymdeithas Tir a Busnes Gwledig Cymru	Llanandras